



Treth y Cyngor
Fframwaith Polisi ar gyfer
Gostyngiadau Dewisol (adran 13a)

RHEOLI FERSIWN

Fersiwn	Dyddiad y Fersiwn	Awdur	Disgrifiad
1	17/09/2025	David Barnes Rheolwr Refeniw a Chaffael	Cyflwyniad i'r fframwaith diwygiedig

CYNNWYS

Adran

Tudalen

Cyflwyniad	3
Crynodeb o Fframwaith Deddfwriaethol	3-4
Meini Prawf Cymhwyso	4-6
Y broses ar gyfer gwneud cais	6
Gwneud Penderfyniadau a Dyfarniadau	6-7
Cyfathrebu ag Ymgeiswyr	7
Y Broses Apelio	7

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn darparu fframwaith polisi ar sut y gall gostyngiadau dewisol fod yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw swm o Dreth y Cyngor y mae'n ofynnol ei dalu a'r meini prawf a'r gweithdrefnau wrth ystyried ceisiadau am ostyngiadau a ddiffinnir yn lleol, sy'n cael eu galw fel arall yn ostyngiadau dewisol adran 13a. Mae'r ddogfen hon yn fframwaith polisi ar wahân i'r cynllun Gostyngiadau Dewisol adran 13a sy'n bodoli ar gyfer gofalwyr maeth awdurdod lleol Cyngor Sir y Fflint.
- 1.2 Mae gan y Cyngor y pŵer cyffredinol i ostwng treth y Cyngor ar gyfer unrhyw eiddo trethadwy. Gellir defnyddio'r pŵer hwn mewn perthynas ag unrhyw achos unigol neu drwy bennu dosbarth o achos y dylid gostwng y swm taladwy ar ei gyfer.
- 1.3 Mae yna oblygiadau ariannol wrth ddyfarnu gostyngiadau dewisol adran 13a gan fod yn rhaid i'r Cyngor dalu cost gwneud y dyfarniadau'n gyfan gwbl drwy gynyddu lefel gyffredinol Treth y Cyngor ar gyfer trethdalwyr eraill.
- 1.4 Mae'n rhaid i'r Cyngor felly ddefnyddio prawf budd y cyhoedd yn ofalus ar gyfer pob dyfarniad, gan gydbwysu anghenion trethdalwyr unigol sydd angen cymorth ariannol ar ffurf gostyngiad dewisol, yn erbyn buddiannau ehangach trethdalwyr y Cyngor yn Sir y Fflint sydd yn y pen draw yn ariannu cost unrhyw ddyfarniadau.
- 1.5 O ganlyniad, yng nghyd-destun y fframwaith polisi hwn, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y Cyngor yn dyfarnu gostyngiadau dewisol, megis mewn sefyllfaoedd o argyfwng a chaledi ariannol eithriadol, a dim ond mewn amgylchiadau pan fo gostyngiadau, diystiriadau ac eithriadau statudol eraill, gan gynnwys Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, wedi'u cyflwyno a'u hystyried. Bwriad dyfarniadau dewisol yw cynnig cymorth dros dro, tymor byr yn unig yn hytrach na datrysiad hirdymor.

2.0 Crynodeb o Fframwaith Deddfwriaethol

- 2.1 Yn unol ag adran 13a o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i cynhwysid gan adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003), mae gan y Cyngor y pŵer i ostwng Treth y Cyngor mewn perthynas ag achosion unigol neu ddosbarth(iadau) o eiddo y gall eu pennu a lle nad oes modd dyfarnu eithriadau na gostyngiadau statudol.
- 2.2 Yn nodweddiadol, dosbarth o eiddo yw lle mae nifer o bobl sy'n atebol i dalu Treth y Cyngor yn perthyn i grŵp, gan fod eu hamgylchiadau'n debyg, er enghraifft, trethdalwyr sydd wedi gorfod gadael eu cartrefi yn sgil llifogydd.
- 2.3 Mae'r Ddeddf yn nodi:
 - Pan fo person yn atebol i dalu Treth y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw annedd drethadwy a diwrnod, gall yr awdurdod bilio ar gyfer yr ardal y mae'r annedd wedi'i lleoli ynddi ostwng y swm y mae'n atebol i'w dalu ar gyfer yr annedd, a'r diwrnod i'r graddau y mae'n eu hystyried yn briodol.
 - Mae'r pŵer hefyd yn cynnwys y pŵer i ostwng swm i ddim.
 - Gellir defnyddio'r pŵer ar gyfer achosion penodol neu i bennu dosbarth o achos lle caiff atebolrwydd ei leihau i'r graddau a nodir gan y penderfyniad.

- 2.4 Mae hyn yn golygu bod modd i Gyngor Sir y Fflint ddyfarnu gostyngiad dewisol mewn perthynas ag unrhyw swm treth y Cyngor sy'n ofynnol, gan gynnwys gostwng unrhyw falans sy'n weddill i'w dalu ar ôl unrhyw Ostyngiad Treth y Cyngor sy'n seiliedig ar brawf modd, gostyngiad statudol, diystyriad neu eithriad gael ei ddyfarnu i'r ymgeisydd.
- 2.5 Yn wahanol i gynlluniau gostyngiadau, diystyriadau ac eithriadau statudol Treth y Cyngor sydd wedi'u hymgorffori yng nghyfrifiadau'r Sylfaen Drethu, mae gostyngiadau dewisol adran 13a a ariennir yn lleol wedi'u heithrio'n briodol o gyfrifiadau'r Sylfaen Drethu. Mae hyn oherwydd y byddai unrhyw ostyngiad yn y Sylfaen Drethu a wneir oherwydd gostyngiadau dewisol o'r fath yn arwain at gynnydd yn yr hawl i Grant Cynnal Refeniw, ac felly byddai cost y gostyngiadau dewisol yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na'r Cyngor.
- 2.6 Er mwyn cydymffurfio ag ymarferion cyfrifeg da, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod darpariaeth cyllideb ddigonol wedi'i neilltuo i dalu costau unrhyw ddyfarniadau dewisol, a chydabod mai talwyr treth y Cyngor eraill sy'n ariannu'r dyfarniadau dewisol yn y pen draw.

3.0 Meini Prawf Cymhwys

- 3.1 Wrth benderfynu dyfarnu gostyngiad dewisol neu beidio, bydd y Cyngor yn ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun ar sail y dystiolaeth a'r amgylchiadau sydd wedi'u nodi ym mhob cais.
- 3.2 Nodir y dosbarthiadau o eiddo y gellir dyfarnu gostyngiad dewisol ar eu cyfer, a swm arfaethedig y gostyngiad, fel a ganlyn:

a) Difrod i Eiddo

- **Eiddo sydd wedi'i ddifrodi gan dân**, lle nad oes modd i neb fyw yn y prif adeilad (heb gynnwys tai allan, siediau na gerddi), oherwydd difrod helaeth, a lle mae camau'n cael eu cymryd i adfer yr eiddo i'w ddefnyddio ar y cyfle cyntaf.

Dyfernir gostyngiad dewisol o hyd at 100% am gyfnod o ddim mwy na 12 mis mewn amgylchiadau lle nad yw yswiriant y cartref yn cwmpasu atebolrwydd Treth y Cyngor ar gyfer yr eiddo a ddifrodwyd gan dân, neu lle nad oedd polisi yswiriant y cartref ar waith ar adeg y tân.

- **Eiddo sydd wedi'i ddifrodi gan lifogydd**, lle nad oes modd i neb fyw yn y prif adeilad (heb gynnwys tai allan, siediau na gerddi), oherwydd llifogydd helaeth yn y prif adeilad ei hun, ond heb gynnwys difrod sydd wedi'i gyfyngu i dai allan, siediau na gerddi.

Dyfernir gostyngiad dewisol o hyd at 100% am gyfnod o ddim mwy na 12 mis mewn amgylchiadau lle nad yw yswiriant y cartref yn cwmpasu atebolrwydd Treth y Cyngor ar gyfer yr eiddo a ddifrodwyd gan lifogydd, neu lle nad oedd polisi yswiriant y cartref ar waith ar adeg y llifogydd.

- **Eiddo sy'n anniogel oherwydd bod olew neu nwy yn gollwng, difrod storm neu ymsuddiant**, lle nad oes modd i neb fyw yn y prif adeilad (heb gynnwys tai allan, siediau na gerddi) oherwydd difrod helaeth.

Dyfernir gostyngiad dewisol o hyd at 100% am gyfnod o ddim mwy na 12 mis mewn amgylchiadau lle nad yw yswiriant y cartref yn cwmpasu atebolrwydd Treth y Cyngor ar gyfer yr eiddo a ddifrodwyd, neu lle nad oedd polisi yswiriant y cartref ar waith ar adeg y difrod.

b) **Caledi Ariannol Eithriadol**

Mae'r Cyngor yn gweithredu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, yn unol ag adran 13a (1) (b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r cynllun hwn yn un ar sail prawf modd ac mae'n darparu cefnogaeth drwy ostyngiad treth y Cyngor o hyd at 100% i rai sydd angen cymorth i dalu costau treth y cyngor. Dyluniwyd y cynllun fel ei fod yn ystyried amgylchiadau ariannol ac amgylchiadau aelwydydd.

Ni ragwelir y bydd llawer o geisiadau'n cael eu gwneud am ostyngiad dewisol yn nhreth y Cyngor ar sail caledi ariannol eithriadol, gan y dylai Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor gefnogi'r unigolion ar incwm isel sy'n atebol i dalu treth y Cyngor, ond mae'n bosibl y gwneir cais mewn amgylchiadau eithriadol.

Nid yw derbyn gostyngiad Treth y Cyngor na bod yn anghymwys i'w dderbyn, yn golygu nad oes modd gwneud cais am ostyngiad dewisol treth y Cyngor, er y byddai disgwyl i ymgeiswyr fod wedi cyflwyno cais gan Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor cyn y gellid ystyried gostyngiad dewisol o dan y fframwaith polisi hwn.

Er mwyn pennu a ddylid dyfarnu gostyngiad dewisol ar sail caledi ariannol eithriadol, bydd y Cyngor yn ystyried y canlynol:

- Mae dadansoddiad llawn o incwm a gwariant yr ymgeiswyr wedi'i gyflwyno ynghyd â thystiolaeth briodol i gefnogi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eu cais.
- A oes modd i'r ymgeisydd newid ei batrymau gwario ar eitemau dianghenraid a pha gamau sydd wedi'u cymryd i reoli eu cyllid, er mwyn sicrhau bod taliadau Treth y Cyngor yn cael eu cynnal.
- A oes trefniant taliadau gohiriedig neu daliadau is wedi'i gynnig a'i gynnal fel dewis amgen.
- Archwilio a oes gan yr ymgeisydd fynediad at asedau eraill y gellid eu defnyddio i dalu Treth y Cyngor sy'n weddill, naill ai yn y tymor byr neu'r hirdymor.
- Ni ddylai'r swm sy'n weddill fod o ganlyniad i wrthod talu'n fwriadol neu fethu â gwneud taliadau fel sy'n ofynnol oherwydd esgeulustod.
- Mae'n rhaid i'r ymgeisydd argyhoeddi'r Cyngor bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i ddatrys y caledi ariannol eithriadol cyn gwneud y cais.
- Bydd y Cyngor yn ystyried gallu ariannol cyffredinol yr aelwyd wrth ddod i benderfyniad ar y cais.

3.3 Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan drethdalwyr am ostyngiadau dewisol adran 13a ar gyfer amgylchiadau eithriadol nad oes cyfeiriad penodol atynt yn y fframwaith

polisi hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor fod o'r farn bod yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais yn eithriadol ac mae'n rhaid iddo fod er budd talwyr treth y Cyngor eraill ac o fudd ehangach i'r cyhoedd, bob amser i ddyfarnu gostyngiad dewisol.

4.0 Y broses ar gyfer gwneud cais

4.1 Caiff ceisiadau eu cyflwyno drwy lenwi ffurflen ar-lein sydd i'w gweld drwy: <https://www.sirryflint.gov.uk/cy/Resident/Council-Tax/Council-Tax-Forms.aspx>

4.1 Gall yr ymgeisydd dan sylw neu ei eiriolwr neu ei benodai gyflwyno'r cais ar-lein. Os nad oes modd i'r trethdalwr gyflwyno cais ar-lein, bydd y Cyngor yn derbyn ffurfiau eraill o geisiadau ysgrifenedig.

4.2 Mae'n rhaid cyflwyno cais yn brydlon ac mae'n rhaid iddo ymwneud â'r flwyddyn ariannol bresennol, oni bai bod modd i'r ymgeisydd ddangos rheswm da pam na wnaethant wneud cais ar yr adeg berthnasol.

5.0 Gwneud Penderfyniadau a Dyfarniadau

5.1 Er bod fframwaith y polisi gostyngiadau dewisol yn ôl y diffiniad yn 'ddewisol', mae gan y Cyngor ddyletswydd i wneud penderfyniadau mewn modd tryloyw ac i weithredu'n deg, yn rhesymol ac yn gyson.

5.2 Bydd y Rheolwr Refeniw yn cynnal yr asesiad cychwynnol a'r argymhelliad o geisiadau yn unol â'r fframwaith polisi, ond bydd y penderfyniad terfynol ar bob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun, a'i gymeradwyo neu ei wrthod trwy bwerau dirprwyedig gan y Prif Swyddog (Llywodraethu) a'r Aelod Cabinet perthnasol sydd â chyfrifoldeb am y swyddogaeth Refeniw.

5.3 Defnyddir y meini prawf canlynol i asesu pob cais:

- Mae'n rhaid i ddyfarniad gostyngiad dewisol fod er budd talwyr Treth y Cyngor a budd ehangach y cyhoedd.
- Dylid cyflwyno ceisiadau am ostyngiadau dewisol yn ysgrifenedig, fel arfer drwy'r ffurflen gais ar-lein ynghyd â thystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r angen am y gostyngiad.
- Mae'n rhaid i'r ymgeisydd argyhoeddi'r Cyngor bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i ddatrys y sefyllfa cyn gwneud y cais.
- Mae cyllid y Cyngor yn caniatáu dyfarnu gostyngiad dewisol.
- Nid oes gan yr ymgeisydd fynediad at asedau eraill y gellid eu defnyddio i dalu Treth y Cyngor.
- Mae pob gostyngiad/ eithriad statudol cymwys arall wedi cael eu hystyried cyn ceisio'r gostyngiad dewisol.
- Mae'n rhaid i'r sefyllfa a'r rheswm dros y cais fod y tu hwnt i reolaeth yr ymgeisydd.
- Ni ddylai'r cais fod yn ganlyniad i wrthod talu'n fwriadol neu fethu â dilyn y cyngor a roddwyd yn flaenorol gan y Cyngor.

6.0 Cyfathrebu ag Ymgeiswyr

- 6.1 Bydd y Cyngor yn hysbysu'r holl ymgeiswyr yn ysgrifenedig ynglŷn â'i benderfyniad ynghylch gostyngiadau dewisol.
- 6.2 Pan ddyfernir gostyngiad dewisol, bydd yr hysbysiad yn cynnwys:
- Swm y gostyngiad dewisol a ddyfernir a'r dyddiad y daw'r dyfarniad i rym.
 - Dyddiad dechrau a therfynu'r dyfarniad.
 - Y swm newydd a godir (os yw hynny'n berthnasol).
 - Gofyniad bod yr ymgeisydd yn hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau a allai effeithio ar y dyfarniad.
- 6.3 Os bydd ceisiadau yn aflwyddiannus, bydd y Cyngor yn darparu llythyr penderfyniad i'r trethdalwr er mwyn rhoi eglurhad priodol ynghylch pam nad oedd y cais yn llwyddiannus. Bydd y llythyr penderfyniad yn rhoi eglurhad o'r hawliau i apelio os nad yw'r trethdalwr yn fodlon â chanlyniad y penderfyniad.

7.0 Y Broses Apelio

- 7.1 O dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, nid oes unrhyw hawl i apelio yn erbyn defnydd y Cyngor o'i bwerau dewisol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn derbyn cais ysgrifenedig gan ymgeisydd am adolygiad pellach o'i benderfyniad cyn belled â'i fod yn cael ei dderbyn o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad gwreiddiol, a bydd cyfle i ddarparu gwybodaeth ychwanegol, lle bo'n briodol.
- 7.2 Os na chaiff y penderfyniad cychwynnol ei wyrddroi, gall yr ymgeisydd apelio i Dribiwnlys Prisio Cymru sy'n annibynnol ar y Cyngor. Dylid cyflwyno'r apeliad pellach hwn o fewn 2 fis i'r hysbysiad o benderfyniad gwreiddiol y Cyngor, neu ganlyniad adolygiad pellach i beidio â dyfarnu gostyngiad dewisol. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch rôl Tribiwnlys Prisio Cymru drwy <https://www.valuationtribunal.wales/cy/cartref.html>